# CRYNODEB CYFARFOD
# Cyfarfod Blynyddol Cyngor Cymuned Llanycil

Nos Fercher, Mai 16eg 2023 am 8.00 o'r gloch yn Neuadd Maesywaen.

Presennol: Huw Charles (cadeirydd), Euros Puw, Gwynfryn Williams, Geraint Jones, Arwel Davies, Rhys Jones, Jean Roberts, Catrin Roberts, Cyng.Elwyn Edwards a'r clerc.

i) Croesawu'r cynghorwyr - **Croesawyd Catrin Roberts i'w chyfarfod cyntaf.**

ii) Ethol Cadeirydd ac Is-gadeirydd, cyfethol aelod newydd
**Etholwyd Huw Charles yn cadeirydd a Jean Roberts yn is-gadeirydd.**

iii) Cynrychiolwyr ar bwyllgorau:- **adolygwyd a chafwyd yn gywir.**
Pwyllgor Un Llais Cymru: Dewis cynrychiolydd pan fydd y Cyngor yn derbyn manylion y cyfarfodydd.

Partneriaeth Penllyn:  Jean Roberts.
Gorff Llywodraethol Ffederasiwn Cysgod y Foel: **Rhys Jones a Catrin Roberts os bydd eilydd.**

iv) Adroddiad Blynyddol y Cyngor – **cymeradwywyd. Cytunwyd i wahodd CFFI Maesywaen i gyweithio gyda'r Cyngor Cymuned i blannu blodau yn yr ardal fel rhan o'r Cynllun Bioamrywiaeth.**

v) Cyfrifon 2022-23 - **cymeradwywyd**

vi) Archwiliad Blynyddol y Cyngor - **roedd Cyngor Gwynedd wedi archwilio'r cyfrifon a chafwyd cadarnhad i sicrwydd yn nhrefniadau llywodraethu a datganiadau cyfrifyddu'r cyngor.**

vii) Gydnabyddiaeth Ariannol i'r Cynghorwyr 2023/24 - **Cofnodwyd y llythyrau a dderbyniwyd gan y cynghorwyr yn cadarnhau nad oeddynt am hawlio'r cydnabyddiaethau ariannol gorfodol.**

viii) Adolygu Asedau – **Adolygwyd y rhestr a chafwyd yn gywir. Cytunodd y cynghorwyr i archwilio'r llochesi bws ac adrodd yn nol yn y cyfarfod nesaf.**

ix) Adolygu Polisïau a Rheoliadau'r Cyngor - **ADOLYGWYD A CHAFWYD YN GYWIR.**